**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Mehefin 15fed 2009 yn Siambr y Cyngor, yr Wyddgrug. Dechreuodd y cyfarfod am 11 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones (Is-Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| R M Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| P C Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| T Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| G James | Cyngor Sir y Fflint |
| P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |
| J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks, P Claydon ac R Simmons (Prif Swyddogion Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Rheolwr Hyfforddiant a Datblygu); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); L Roberts MBE (Rheolwr yr Ystafell Reoli); I Williams

(Rheolwr Cefnogaeth y Grŵp Gweithredol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt yr Aelodau) ac S Jones (Cynorthwy-ydd Cyswllt yr Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr un eitem wedi ei chyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

3 COFNODION

3.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 16eg Mawrth 2009 i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion**

4 MATERION YN CODI

4.1 *14 – Cronfeydd wrth gefn yr Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol – dosbarthwyd llythyr a dderbyniwyd gan Dr Brian Gibbons AC i'r Aelodau i roi gwybod iddynt y cytunwyd y gallai awdurdodau tân ac achub cyfunol, yn dilyn newidiadau i'r ddeddfwriaeth, ddal cronfeydd wrth gefn. Esboniodd y Trysorydd nad oedd yn rhagweld unrhyw broblemau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyda'r newidiadau sydd i'w gwneud i'r Gorchymyn Cyfuno.*

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan y Cyng. Trevor Roberts a'r Cyng. Sharon Frobisher yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth a dechrau Gorffennaf 2009.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y CYNLLUN LLEIHAU RISG 2009

6.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo dogfen ymgynghorol ddrafft y Cynllun Lleihau Risg 2009.

6.2 Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y ddogfen ymgynghorol wedi ei llunio mewn diwyg a fyddai'n galluogi cael trafodaeth gyda phobl Gogledd Cymru ynghylch yr hyn a ddisgwyliant gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd y ddogfen yn cyflwyno pedwar cwestiwn ynglŷn â gwaith gyda phobl ifanc, cyd-ymateb, y system Dyletswydd Ran Amser, ac arbedion effeithlonrwydd. Byddai adborth a sylwadau'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod ym mis Hydref.

6.3 Roedd is-grŵp o Weithgor y Cynllun Risg wedi gweithio ar y ddogfen, ac anogwyd yr Aelodau i gael eu cymunedau lleol i fod yn rhan o'r ymgynghoriad.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) yn ystod 2010-11, nodi a chymeradwyo'r bwriad i barhau â chynlluniau gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg y cytunwyd arnynt eisoes, a'u cyfuno;**

**(ii) nodi a chymeradwyo'r bwriad i ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch pedair egwyddor sylfaenol (pynciau'r Cynllun Risg) dros yr haf yn 2009, er mwyn arwain y gwaith o gynllunio i leihau risg yn ystod 2010-11 ac i'w gyhoeddi yn un o gynlluniau gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg erbyn Hydref 31, 2010; a**

**(iii) chymeradwyo'r ddogfen ymgynghorol i'w chyhoeddi a'i dosbarthu ar unwaith.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON 2008-2009

7.1 Cyflwynwyd adroddiad i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar y Datganiad drafft o Gyfrifon am 2008-2009 yn unol â darpariaeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. Roedd y Datganiad drafft o Gyfrifon wedi dod ar gael i KPMG, a chyflwynir y cyfrifon terfynol i'r Awdurdod yn hwyrach yn y flwyddyn.

7.2 Esboniodd y Trysorydd fod y gwaith cyllidebu ar gyfer 2008/2009 wedi ei wneud yn dda, ac roedd hyn yn tystio i'r modd yr oedd y swyddogion wedi cynllunio a rheoli gwariant yn ystod y flwyddyn.

7.3 I ateb cwestiwn gan Aelod ynglŷn â'r £734,000 o danwariant ar gostau gweithwyr, nodwyd bod hyn o ganlyniad i fwlch rhwng swyddi'n dod

yn wag a chael eu llenwi, ynghyd â materion recriwtio ar ochr y System Dyletswydd Ran Amser.

7.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009.**

8 GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS AM 2008-2009

8.1 Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y trysorlys, fel un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod, ac a oedd yn ymdrin â gweithgarwch y trysorlys yn 2008-2009. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r gwir Ddangosyddion Darbodus am 2008-2009 yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

8.2 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau nad oedd yr argyfwng yn y byd bancio wedi effeithio ar yr Awdurdod gan nad oedd dim arian wedi ei fuddsoddi ym manciau Gwlad yr Iâ. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad mewn cyfraddau llog a swm yr arian y gellid ei fuddsoddi wedi cael rhywfaint o effaith. Llongyfarchwyd y Trysorydd am y gwaith hwn.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r gwir Ddangosyddion Darbodus 2008-2009; a**

**(ii) nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys yn 2008-2009.**

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y DYLEDION DRWG A DDILËWYD

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am y dyledion drwg a ddilëwyd rhwng 1af o Ebrill 2008 a 31ain o Fawrth 2009.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

10 TEMPLED CYD-ASESIAD RISG AC ASESIAD RISG

10.1 Cyflwynwyd y papurau gan Rob Powell o Swyddfa Archwilio Cymru. Esboniodd fod y Templed Asesiad Risg wedi ei seilio ar gynllun risg Llywodraeth y Cynulliad, a bod swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gweithio arno.

10.2 I ateb cwestiwn gan Aelod ynghylch y ffaith fod yr absenoldebau salwch yn uwch na'r targed ar gyfer Cymru, esboniodd y Prif Swyddog Tân fod hyn, yn rhannol, yn ganlyniad i bolisi'r Awdurdod o geisio cadw pobl yn y Gwasanaeth cyhyd ag y bo modd; a hynny er mwyn gostwng nifer y bobl yn absennol oherwydd salwch a fyddai'n

ymddeol ar sail afiechyd, sef rhywbeth yr oedd yr Awdurdod yn ceisio ei osgoi.

10.3 Cynhaliwyd y Cyd-Asesiad Risg gan dîm adolygu cymheiriaid (swyddogion o Awdurdodau Tân ac Achub eraill), ac roedd gan KPMG ran fawr hefyd.

10.4 Roedd yr Asesiad yn un cadarnhaol, ac yn dangos bod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd wrth leihau risg ar lefel weithredol ac anweithredol. Roedd lefel y risg yn dal yn uchel yn y meysydd canlynol: sef gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau, safonau gwasanaeth a'r polisi cyfredol o ran cyd-ymateb. Ystyrid y system dyletswydd ran amser yn un â lefel canolig o risg, a nodwyd bod adolygiad o'r System Dyletswydd Ran Amser wedi ei gychwyn.

10.5 Nodwyd hefyd y byddai sefydlu'r Pwyllgor Archwilio yn gymorth i gefnogi trefn lywodraethol dda.

10.6 **PENDERFYNWYD nodi templed y cyd-asesiad risg a'r asesiad risg.**

11 GWYBODAETH AM BERFFORMIAD 2008-2009 (DATA AM Y TRO)

11.1 Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad ynglŷn â'r wybodaeth am berfformiad yn 2008-09, a byddai'n cael ei archwilio a'i gyhoeddi yn y Cynllun ar gyfer Gwella ar ddiwedd mis Hydref.

11.2 Bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau yn ystod y cyfnod, ac roedd hyn i'w briodoli i lai o danau eilaidd (bwriadol a damweiniol). Bu cynnydd yn y tanau simneiau rhwng Hydref a Mawrth.

11.3 Bellach, roedd y diffoddwyr tân yn mynd at fwy o wrthdrawiadau ar y ffyrdd, a hynny oherwydd gweithdrefn newydd a sefydlwyd gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans lle bônt yn rhoi gwybod i staff yr ystafell reoli ar unwaith pan fo ambiwlans yn cael ei galw i wrthdrawiad ar y ffordd.

11.4 Roedd ffigurau'r safon Cymru-gyfan ar gyfer "tanau mewn cartrefi sy'n cwrdd â'r safon gwasanaeth 5-munud yn lleol" yn is nag yn 2008-09, ond nid oedd hyn, o reidrwydd, yn golygu bod dirywiad yn y perfformiad, dim ond mai safon newydd yw hi, a'i bod yn rhy gynnar i ddadansoddi'r ffigurau'n iawn. Nodwyd bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithredu adolygiad o'r safon, ac yn ystyried ffyrdd i gyfrifo'r ffigurau mewn modd ystyrlon.

11.4 Roedd ffigurau'r gwaith diogelwch tân cymunedol yn cynnwys nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a wnaethpwyd (31,180), y digwyddiadau cyhoeddusrwydd a fynychwyd, y sgyrsiau diogelwch

tân a'r ymweliadau ag ysgolion – gan olygu bod cyfanswm y gynulleidfa a gyrhaeddwyd yn 118,963, sef 17.5% o'r boblogaeth.

11.5 Bu cynnydd bychan yn nifer y tanau mewn eiddo annomestig, ond o ran canran, roedd y ffigwr hwn yn llai nag 1%. Cynhaliwyd 861 awdit diogelwch tân i danau annomestig, a rhoddwyd 36 o hysbysiadau gorfodaeth a 18 o hysbysiadau gwahardd.

11.6 Roedd nifer y galwadau ffug maleisus a dderbyniwyd wedi gostwng, a hefyd roedd nifer y galwadau tân awtomatig wedi gostwng, a hynny o ganlyniad i'r Gwasanaeth yn cydweithio â pherchnogion safleoedd a busnesau i adnabod unrhyw broblemau.

11.7 Roedd dros 10,000 o anfonebau'n cael eu prosesu'n flynyddol, ac roedd 92.2% o'r rheini'n cael eu talu o fewn 30 niwrnod i gael eu derbyn.

11.8 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau ynghylch sefyllfa'r ystafell reoli gyda'r gwasanaeth ambiwlans, dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Aelodau fod achos busnes amlinellol i fod i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad, ac yn amodol ar gymeradwyo hwnnw, byddai achos busnes llawn yn cael ei lunio i'w gymeradwyo, ac wedi hynny byddai'r broses o adleoli'r gwasanaeth ambiwlans i'r Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd yn dechrau.

11.9 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

12 ARCHWILIADAU DIOGELWCH TÂN YN Y CARTREF

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am gyfanswm nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflawnwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2008/2009.

12.2 Llongyfarchwyd y Gwasanaeth gan yr Aelodau am fynd y tu hwnt i'r targed o 30,000.

12.3 Atgoffwyd yr Aelodau gan y Prif Swyddog Tân nad oedd modd cynnal y math hwn o gyrhaeddiad gyda'r adnoddau fel y maent ar hyn o bryd. Petai'r cyrhaeddiad rhyfeddol hwn yn parhau, byddai'n effeithio ar feysydd eraill yn y Gwasanaeth, felly roedd yn hollbwysig ailddyrannu adnoddau er mwyn sicrhau nad effeithid ar hyfforddiant a materion yr ochr weithredol.

12.4 Dywedodd y Cyng. M Ll Davies fod y ffigurau yn y cyflwyniad am berfformiad yn dangos pwysigrwydd archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, ac y byddai angen ystyried unrhyw doriadau yn y cyllid ar gyfer y maes hwn yn ofalus.

12.5 I ateb cwestiwn gan Aelod ynglyn ag archwiliadau diogelwch tân ar safleoedd busnes, cadarnhawyd mai'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth diogelwch tân gyfredol yw bod yn rhaid i'r sawl sydd wedi ei enwebu'n gyfrifol gyflawni asesiad risg a hwnnw'n cael ei archwilio, wedi hynny, gan y Swyddogion Gorfodaeth ac Archwilio.

12.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

13 CYNLLUN TALIADAU I AELODAU

13.1 Yn y cyfarfod ym mis Mawrth, roedd Aelodau wedi bod yn ystyried y Cynllun Taliadau i Aelodau, ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y lwfans gofal a'r dull o hawlio lwfans cynhaliaeth. Yn ogystal â'r materion hyn, roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ddiweddaredig am y codiadau a wnaed gan yr awdurdodau cyfansoddol i Lwfansau Sylfaenol a Lwfansau am Gyfrifoldebau Arbennig i Gynghorwyr yn 2008/09.

13.2 Cyflwynwyd y papur gan y Clerc, ac esboniodd fod y Panel Taliadau Annibynnol yn argymell cyflwyno lwfans gofal er mwyn bod yn gyson â'r awdurdodau cyfansoddol. Aeth yn ei flaen i esbonio y gellid hawlio'r lwfans cynhaliaeth o £28 yn hyblyg dros gyfnod o 24 awr, ond y byddai'n rhaid i'r hawliadau fod yn rhesymol o fewn yr hyn a ddisgwylir o bobl mewn swyddi cyhoeddus.

13.3 Rhoddodd y Trysorydd wybod i'r Aelodau fod gwybodaeth anghywir wedi ei derbyn gan rai awdurdodau cyfansoddol ynghylch y codiadau a wnaed i Lwfans Sylfaenol a Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig yn 2008/09. Roedd hyn yn golygu mai'r codiad cyfartalog yn gyffredinol trwy'r 6 awdurdod oedd 1.67%. O ganlyniad, roedd yr Aelodau wedi derbyn gordaliad bychan a fyddai'n cael ei gywiro trwy'r gyflogres ym mis Gorffennaf.

13.4 I ateb cwestiwn gan Aelod yn seiliedig ar y taliadau yn yr awdurdodau cyfansoddol, esboniodd y Trysorydd fod hyn yn ofyniad yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007. Teimlai'r Aelodau y dylai Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio dderbyn lwfans am gyfrifoldeb arbennig, ond cadarnhaodd y Trysorydd a'r Clerc nad oedd hyn yn bosib dan y Rheoliadau cyfredol.

13.5 Cynigiodd y Cyng. P C Evans fod y Clerc yn anfon llythyr ar ran yr Awdurdod i gynnig bod y Rheoliadau'n cael eu diwygio fel y gallai Awdurdodau Tân ac Achub sefydlu eu codiadau eu hunain, neu fod y Panel Taliadau Annibynnol yn cael cyfrifoldeb am sefydlu'r lwfans yn genedlaethol. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc y byddai angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru gefnogi'r cynnig hwn

cyn i unrhyw lythyrau ffurfiol gael eu hanfon i'r Cynulliad neu'r Panel Taliadau Annibynnol.

13.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cyflwyno lwfans gofal i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru;**

**(ii) cytuno i ddull hyblyg a rhesymol o ymdrin â lwfans cynhaliaeth, gydag uchafswm (gyda derbynebau) y gellid ei hawlio, o fewn un cyfnod, heb fod yn uwch na £28;**

**(iii) nodi a chymeradwyo'r wybodaeth wedi ei chywiro am y lwfansau;**

**(iv) gwneud sylwadau i'r Panel Taliadau Annibynnol fel ym mharagraff 13.5.**

14 BREINLEN CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

14.1 Derbyniodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Freinlen. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc beth oedd nod y Siarter ac ymrwymiad yr Awdurdod i:

> "greu amgylchedd o addysgu a datblygu er mwyn rhoi'r lefel angenrheidiol o sgiliau a dealltwriaeth i aelodau i'w galluogi i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon".

14.2 Rhoddodd y Clerc wybod i'r Aelodau am y broses o gynnal cyfweliadau cefnogaeth a datblygiad personol ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, a fydd yn cael ei roi ar waith fesul cam i bob Aelod o'r Awdurdod.

14.3 Gofynnwyd i'r Aelodau lenwi holiadur gwerthuso i fyfyrio ynghylch y deuddeng mis cyntaf ar yr Awdurdod newydd ei ethol.

14.4 **PENDERFYNWYD:**

**(i) ail-gadarnhau ymrwymiad yr Awdurdod i'r Freinlen;**

**(ii) cefnogi cyflwyno'r Freinlen;**

**(iii) ymrwymo fod yr Aelodau'n mynychu dwy sesiwn hyfforddi y flwyddyn, o leiaf;**

**(iv) cyflwyno cynllun mentora ar gyfer aelodau newydd; a**

**(v) llenwi'r holiadur gwerthuso.**

15 CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

15.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod Ebrill 2008 hyd at Fawrth 2009.

15.2 Ar gais yr Aelodau, darparodd y swyddogion ragor o wybodaeth am rai cwynion. Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod nifer o lythyron a datganiadau o werthfawrogiad wedi eu derbyn gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn.

15.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

16 GWEITHGARWCH IECHYD CORFFORAETHOL

16.1 Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am weithgarwch iechyd corfforaethol yr Awdurdod. Cynllun i wobrwyo ansawdd oedd Iechyd ar Waith: Cyrraedd y Nod, yn cael ei weithredu gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn cydnabod arferion da o ran iechyd yn y gweithle.

16.2 Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyrraedd y Safon Aur yn Chwefror 2008, a bellach roedd yn paratoi ar gyfer asesiad yn erbyn y Safon Platinwm. Fel rhan o'r cyflwyniad hwn, bydd y Gwasanaeth yn defnyddio gorsaf dân gymunedol y Rhyl fel astudiaeth achos i ddangos cyfranogiad cymunedol.

16.3 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons wybod i'r Aelodau fod 40 o grwpiau'n defnyddio gorsaf dân gymunedol y Rhyl, a'i bod, yn rheolaidd, yn derbyn 1000 o ymwelwyr y mis.

16.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

17 Y CYLCHGRAWN 'ER GWYBODAETH'

17.1 Cafodd yr Aelodau y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth'

17.2 **PENDERFYNWYD nodi'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth'**

18 COFNODION ER GWYBODAETH

18.1 Nododd yr Aelodau gofnodion y ddau gyfarfod canlynol, nad ydynt eto wedi eu cadarnhau:

(i) Y Panel Gweithredol 11$^{eg}$ Mai 2009;

(ii) Gweithgor ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, a Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol 23ain Ebrill 2009.

RHAN II CYFRINACHOL

Roedd yr adroddiad canlynol wedi ei eithrio rhag ei ddatgelu, fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 i 18 o Ran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

19 ADOLYGIAD O GYFLOGAU'R UWCH SWYDDOGION

19.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i roi gwybod i'r Aelodau y byddai Adolygiad cyfnodol o Gyflogau'r Uwch Swyddogion yn cael ei gynnal.

19.2 **PENDERFYNWYD nodi bod adolygiad cyfnodol o gyflogau'r uwch swyddogion wedi ei gomisiynu yn unol â threfniant blaenorol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.**